

Y CYFANSODDIAD ADRAN 21. PROTOCOL AR BERTHNASAU AELOD / SWYDDOG

1 Cyflwyniad

- 1.1 Diben y protocol hwn yw rhoi arweiniad i aelodau a swyddogion y Cyngor ynglŷn â'u perthnasau gyda'i gilydd. Mae ansawdd y rhyngwyneb rhwng y naill ochr a'r llall yn hanfodol er mwyn sicrhau fod gan y Cyngor y safonau uchaf o ran ei fusnes preifat a chyhoeddus.
- 1.2 O ystyried amrywiaeth a chymhlethdod perthnasau o'r fath, nid yw'r protocol hwn yn ceisio bod yn rhagnodol na chynhwysfawr. Yn syml, mae'n ceisio cynnig arweiniad ar rai o'r materion mwyaf cyffredin. Y gobaith yw, fodd bynnag, y bydd yr ymagwedd y mae'n ei ddefnyddio ar y materion yn gweithredu fel canllaw i ddelio â materion eraill.
- 1.3 Mae'r protocol hwn i raddau helaeth yn ddim mwy na datganiad ysgrifenedig o arferion cyfredol. Mewn rhai ffyrdd, fodd bynnag, mae'n ceisio hyrwyddo mwy o eglurder a sicrwydd.
- 1.4 Mae'r protocol hwn hefyd yn ceisio adlewyrchu'r egwyddorion sy'n sail i'r Cod Ymddygiad sy'n berthnasol i aelodau a swyddogion. Nod cyffredin y codau hyn yw gwella a chynnal uniondeb (gwirioneddol a chysyniadol) o lywodraeth leol ac felly mae angen ymddygiad personol o safon uchel iawn.
- 1.5 Mae rhannau perthnasol Codau Ymddygiad yr Aelodau a'r Gweithwyr wedi'u nodi isod:
 2. Mae gweithwyr yr awdurdod yn gweithio ar gyfer yr awdurdod sy'n eu cyflogi ac yn gwasanaethu'r awdurdod cyfan. Maent yn atebol i, ac mae ganddynt ddyletswydd i'r awdurdod hwnnw (Cod y Gweithwyr).
 4. Mae parch rhwng gweithwyr ac Aelodau i'w gilydd yn hanfodol i lywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.

Dylai gweithwyr cymwys ddelio â'r cyhoedd, Aelodau a gweithwyr eraill yn sympathetig, effeithlon ac yn ddiuedd (Cod y Gweithwyr).
- 1.6 Yn unol â'r gofynion, mae'n bwysig bod unrhyw ymwneud rhwng aelodau a swyddogion bob amser yn cadw at safonau cwrteisi rhesymol ac ni ddylai'r naill na'r llall geisio manteisio ar eu sefyllfa.

Yn unol â gofynion y Cod, mae'n bwysig bod unrhyw drafodion rhwng yr aelodau a'r swyddogion yn arsylwi safonau rhesymol o gwrteisi ac na ddylai'r naill na'r llall geisio cymryd mantais annheg o'u sefyllfa.

2 Cyngor Swyddogion i Grwpiau Plaid

- 2.1 Mae cydnabyddiaeth statudol ar gyfer grwpiau plaid ac mae'n arfer cyffredin ar gyfer grwpiau o'r fath i roi ystyriaeth ragarweiniol i faterion busnes y Cyngor cyn i faterion o'r fath gael eu hystyried gan gorff perthnasol y Cyngor sy'n gwneud penderfyniadau. Gellir gofyn yn briodol i Swyddogion trwy'r Prif Weithredwr, pan fo'n briodol, i gefnogi a chyfrannu at ystyriaethau o'r fath gan grwpiau plaid. Yn benodol, mae'n hanfodol fod ceisiadau ar gyfer presenoldeb Swyddog mewn cyfarfodydd grwpiau plaid llawn yn cael eu cyflwyno trwy'r Prif Weithredwr. Dylid nodi nad yw'n ofynnol i Swyddogion fynychu cyfarfodydd grŵp o'r fath.
- 2.2 Gall y gefnogaeth a ddarperir gan swyddogion fod mewn amryw o ffurfiau, gan amrywio o gyfarfod briffio gyda Chadeirydd cyn cyfarfod Bwrdd neu Bwyllgor i gyflwyniad i gyfarfod grŵp plaid llawn. Er yn ymarferol y ceisir cefnogaeth swyddog yn bennaf gan y grŵp plaid sy'n rheoli'r Cyngor, mae cefnogaeth o'r fath ar gael i'r holl grwpiau plaid.
- 2.3 Fodd bynnag mae'n rhaid i'r rhai sy'n rhan o'r fath hon o broses, yr aelodau a'r swyddogion, ddeall rhai pwyntiau penodol. Yn benodol:
 - (a) Dylai'r aelodau barchu niwtraliaeth ac amhleidioldeb gwleidyddol yr holl swyddogion.
 - (b) Ni ddylai cefnogaeth swyddog o dan yr amgylchiadau hyn fod yn fwy na darparu gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â materion busnes y Cyngor. Ni ddylai'r swyddogion gynghori ynglŷn â materion busnes y plaid. Bydd cadw at y gwahaniaeth hwn yn cael ei gynorthwyo os nad oes disgwyl i swyddogion fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, neu rannau o gyfarfodydd, pan fydd materion busnes y plaid yn cael eu trafod;
 - (c) Nid yw cyfarfodydd grwpiau plaid, er eu bod yn ffurfio rhan o'r rhagbaratodau i wneud penderfyniadau yn y Cyngor, yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. Felly nid yw'r casgliadau a wneir mewn cyfarfodydd o'r fath yn cyfrif fel penderfyniadau'r Cyngor ac mae'n ofynnol nad ydynt yn cael eu dehongli nac eu gweithredu fel hynny; ac
 - (ch) Yn yr un modd, pan roddir awdurdod i swyddogion gan y Prif Weithredwr i ddarparu gwybodaeth a chyngor i gyfarfod grŵp plaid mewn perthynas â mater busnes y Cyngor, ni all weithredu'n amnewid am ddarparu'r holl wybodaeth a chyngor i'r Cyngor, Bwrdd Gweithredol, Pwyllgor neu Is-bwyllgor pan fydd y mater dan sylw'n cael ei ystyried.

- 2.4 Mae angen arfer gofal arbennig pan fydd swyddogion yn darparu gwybodaeth a chyngor i gyfarfod grŵp plaid sy'n cynnwys unigolion nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor. Ni fydd unigolion o'r fath wedi'u hymrwymo o dan y Cod Ymddygiad (yn enwedig, y darpariaethau sy'n ymwneud â datgan cysylltiad a chyfrinachedd) ac am y rheswm hwn a rhesymau eraill efallai na all swyddogion ddarparu'r un lefel o wybodaeth a chyngor ag y gallant pe bai'n gyfarfod i aelodau'n unig.
- 2.5 Mae'n rhaid i swyddogion barchu cyfrinachedd unrhyw drafodaethau grwpiau plaid y maent yn bresennol ar eu cyfer yn y modd na ddylent ailadrodd cynnwys unrhyw drafodaeth o'r fath i grŵp plaid arall.
- 2.6 Dylid codi unrhyw achosion penodol anodd neu ansicr ym maes cyngor swyddog i grwpiau plaid gyda'r Prif Weithredwr fydd yn eu trafod gydag arweinydd (arweinwyr) y grŵp perthnasol.

3 Gwasanaethau Cefnogaeth i Aelodau a Grwpiau Plaid

- 3.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cefnogaeth cyfreithlon (e.e. offer swyddfa, teipio, argraffu, llungopïo, cludiant ac ati) i aelodau yw i gynorthwyo i gyflawni eu rôl fel aelodau'r Cyngor. Felly dylid defnyddio gwasanaethau cefnogaeth o'r fath at ddibenion busnes y cyngor yn unig. Ni ddylid eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgareddau plaid wleidyddol neu ymgyrchu neu at ddibenion preifat.

4 Mynediad aelodau at wybodaeth ac at ddogfennau'r Cyngor

- 4.1 Mae gan aelodau hawl i gysylltu ag unrhyw Adran y Cyngor i geisio gwybodaeth, eglurhad a chyngor (ynglŷn â swyddogaethau'r Adran honno) fel sy'n rhesymol er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel aelodau'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynglŷn ag unrhyw agwedd o weithgareddau'r Adran i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr. Fel arfer, dylai dulliau o'r fath gael eu cyfeirio at Brif Swyddog neu i uwch swyddog arall yr Adran dan sylw ar gyfer materion dydd i ddydd.
- 4.2 O ran hawliau cyfreithiol yr aelodau i arolygu dogfennau'r Cyngor, mae'r rhain yn dod o dan statud yn rhannol ac yn rhannol o dan y gyfraith gyffredin.
- 4.3 Mae gan aelodau hawl statudol i archwilio unrhyw ddogfen y Cyngor sy'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod y Cyngor, Bwrdd Gweithredol, Pwyllgor neu Is-bwyllgor. Mae'r hawl hwn yn berthnasol boed yr aelod yn aelod o'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor dan sylw ai peidio ac yn ymwneud â'r adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfod, ond hefyd yn cynnwys unrhyw bapurau cefndir perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r hawl hwn yn berthnasol i ddogfennau mewn perthynas ag eitemau sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig mewn perthynas â gweithwyr,

preswylwyr eiddo'r Cyngor, ymgeiswyr am grantiau a gwasanaethau eraill, gofal plant, trafodaethau contractau a chysylltiadau diwydiannol, cyngor gan Gwnselwyr ac ymchwiliadau troseddol.

4.4 Mae hawl cyfraith gyffredin yr aelodau yn ehangach ac yn seiliedig ar yr egwyddor fod gan unrhyw aelod hawl prima facie i archwilio dogfennau'r Cyngor cyn belled ag y bo ei fynediad / ei mynediad i'r dogfennau yn rhesymol er mwyn galluogi'r aelod i berfformio ei ddyletswyddau / ei dyletswyddau fel aelod o'r Cyngor. Cyfeirir at yr egwyddor hon yn aml fel yr egwyddor "angen ei wybod".

4.5 Mae arfer yr hawl cyfraith gyffredin hwn felly'n dibynnu ar allu'r aelod i arddangos fod ef neu hi "angen gwybod" yr wybodaeth. Yn hyn o beth nid oes gan yr aelod unrhyw hawl i "gomisiwn crwydro" i fynd ac archwilio dogfennau'r Cyngor.

Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol. Y cwestiwn hanfodol yw penderfynu a oes "angen ei wybod". Mae'n rhaid i Brif Swyddog sydd yn dal y ddogfen dan sylw benderfynu ar yr ateb i'r cwestiwn hwn yn gyntaf (gyda chyngor gan Brif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid). Mewn achos o anghydfod, mae'r cwestiwn yn cael ei benderfynu gan gorff perthnasol y Cyngor – h.y. y Bwrdd Gweithredol neu'r Pwyllgor sydd â'r swyddogaethau a nodir yn y ddogfen.

4.6 Mewn rhai amgylchiadau (e.e. aelod Bwrdd neu Bwyllgor yn dymuno archwilio dogfennau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Bwrdd neu'r Pwyllgor) bydd "angen yr aelod i wybod" yn cael ei ragdybio fel arfer. O dan amgylchiadau eraill (e.e. aelod yn dymuno archwilio dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol ynglŷn â thrydydd parti) fel arfer bydd disgwyl i aelod gyfiawnhau'r cais mewn telerau penodol.

4.7 Er bod term "dogfen y Cyngor" yn eang iawn ac yn cynnwys er enghraifft, unrhyw ddogfen sy'n cael ei chynhyrchu gydag adnoddau'r Cyngor, derbynnir trwy gonfensiwn na fydd gan aelod o un grŵp plaid yr "angen i wybod", ac felly'r hawl i archwilio, dogfen sy'n ffurfio rhan o waith mewnol grŵp plaid arall.

4.8 Gellir cael cyngor pellach a manwl mewn perthynas â hawliau aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor gan Brif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.

4.9 Yn olaf, dylid defnyddio unrhyw wybodaeth y Cyngor a ddarparwyd i Aelod gan yr Aelod at y diben y darparwyd yr wybodaeth honno, h.y. mewn cysylltiad â pherfformiad cywir o ddyletswyddau'r Aelod fel aelod o'r Cyngor. Mae'n rhaid i aelodau fod yn ystyriol o'u hymrwymadau ac ymrwymadau'r Cyngor o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Pwysleisir y pwynt hwn hefyd yn y Cod Ymddygiad gyda'r telerau canlynol:

4.10. Ni ddylai aelodau ddatgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol heb ganiatâd datganedig gan unigolyn sydd ag awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai bod gofyniad cyfreithiol i wneud hynny.

5 Perthynas Swyddog / Cadeirydd

- 5.1 Mae'n amlwg yn bwysig y dylid cael perthynas waith agos rhwng Cadeiryddion y Bwrdd Gweithredol, a Phwyllgorau, Prif Swyddogion ac uwch swyddogion sy'n adrodd i'r cyrff hynny. Fodd bynnag, ni ddylid caniatáu i berthnasau o'r fath fod mor agos, neu ymddangos mor agos, fel y gellir cwestiynu gallu'r swyddog i ddelio ag aelodau eraill a grwpiau plaid eraill yn ddiuedd.
- 5.2 Er yr ymgynghorir â Chadeiryddion y Bwrdd Gweithredol a Phwyllgorau (neu Is-bwyllgorau) yn rheolaidd fel rhan o'r broses o lunio rhaglen ar gyfer y cyfarfod sydd i ddod, rhaid cydnabod mewn rhai amgylchiadau bod dyletswydd ar Brif Swyddogion Adran i gyflwyno adroddiad ar fater penodol. Yn yr un modd, bydd Prif Swyddogion bob tro yn gwbl gyfrifol am gynnwys unrhyw adroddiad sy'n cael ei gyflwyno yn eu henw. Dylid cyfeirio unrhyw faterion sy'n codi rhwng Cadeirydd a Prif Swyddog yn y maes hwn at y Prif Weithredwr i'w ddatrys gyda chydweithrediad Arweinydd y Cyngor.
- 5.3 Mewn perthynas â chamau gweithredu rhwng cyfarfodydd, mae'n bwysig cofio bod Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu gwneud penderfyniadau (mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r Cyngor) gan y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgor, Is-Bwyllgor neu swyddog yn unig. Nid yw'n caniatáu i'r Arweinydd nac unrhyw aelod unigol arall wneud penderfyniadau o'r fath.
- 5.4 Mae'n arferiad yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau er mwyn cymeradwyo penderfyniad, sy'n awdurdodi swyddogion a enwyd i gymryd camau gweithredu rhwng y cyfarfodydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a/neu'r Is-Gadeirydd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, y swyddog sy'n atebol am y camau gweithredu, yn hytrach na'r Cadeirydd ac/neu'r Is-gadeirydd.
- 5.5 Yn olaf, rhaid cofio bod swyddogion mewn Adran yn atebol i Brif Swyddog ac er y dylai swyddogion geisio cynorthwyo Cadeirydd (neu unrhyw Aelod) ni ddylent, drwy wneud hynny, fynd y tu hwnt i'r awdurdod a roddwyd iddynt gan eu Prif Swyddog.

6 Gohebiaeth

- 6.1 Ni ddylai gohebiaeth rhwng aelod unigol a swyddog gael ei gopïo (gan y swyddog) i unrhyw aelod arall fel arfer. Lle mae'n briodol i gopïo'r wybodaeth i aelod arall, dylid egluro hyn yn glir i'r aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopïau tawel".
- 6.2 Fel arfer, dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu gyrru yn enw'r swyddog priodol yn unig, yn hytrach nag yn enw aelod unigol. Bydd yn briodol ar adegau bod llythyrau yn ymddangos yn enw'r Aelod megis fel yr Arweinydd, ond byddai hyn yn eithriad yn hytrach na'r arfer. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaeth neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r aelod.

7 Ymgysylltiad Cynghorwyr Ward

- 7.1 Pryd bynnag y bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu gan y Cyngor i ystyried mater lleol, dylid gwahodd yr holl aelodau sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau yr effeithir arnynt fel mater o drefn. Yn yr un modd, pan fydd y Cyngor yn cynnal unrhyw fath o ymarfer ymgynghori ar fater lleol, dylid hysbysu aelodau'r Ward ar ddechrau'r ymarfer.

8 Cwynion ynglŷn â Thorri'r Protocol hwn

- 8.1 Gall torri'r protocol hwn arwain at gamau disgyblu yn achos y Swyddogion neu eu hatgyfeirio at Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn achos yr Aelodau. Gwybodaeth i egluro rôl y Pwyllgor Safonau a chroesgyfeirio i'r adran ar Bwyllgor Safonau yn y Cyfansoddiad.
- 8.2 Os bydd Aelod yn anfodlon ag ymddygiad swyddog dylai ef/hi drafod y mater gyda Prif Swyddog i ddechrau er mwyn ceisio datrys y mater yn anffurfiol. Ni fydd gweithdrefnau disgyblu'r Cyngor o reidrwydd yn berthnasol a /neu'n briodol yn yr holl amgylchiadau ond yn yr achosion priodol bydd y Prif Swyddog perthnasol yn dilyn y gweithdrefnau hyn.
- 8.3 Os bydd Swyddog yn anfodlon gydag ymddygiad Aelod, dylai ef/hi godi'r mater gyda'u rheolwr atebol neu Brif Swyddog er mwyn ceisio datrys y mater yn anffurfiol gyda'r Aelod. Gall y Prif Swyddog, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ymgynghori â'r Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro (Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid) a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau. Gall y Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro, lle bo'n briodol, godi'r mater gydag Arweinydd y grŵp gwleidyddol perthnasol.
- 8.4 Dylid gwneud pob cwyn ffurfiol h.y. y rhai na ellir eu datrys yn anffurfiol, yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro (Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid).